Mesur ac asesu cyfaint ac ansawdd pren sydd wedi'i gwympo

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â mesur ac asesu cyfaint ac ansawdd pren sydd wedi'i gwympo gan ddefnyddio'r dulliau priodol.

Mae'n rhaid i'ch gwaith gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, codau ymarfer, safonau'r diwydiant a chanllawiau perthnasol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael y wybodaeth berthnasol i gyflawni'r gweithgareddau gwaith yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
2. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac iechyd a diogelwch pobl eraill bob amser, yn unol â'r ddeddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
3. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith sydd i'w gyflawni, cyn dechrau gweithio a thrwy gydol y gweithgaredd, gan wirio a chadarnhau canfyddiadau unrhyw asesiadau risg presennol
4. cadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith i'w gyflawni yn cael ei wisgo drwy'r amser
5. defnyddio gwybodaeth a chyfarpar sydd ar gael i fesur a chofnodi cyfaint y pren sydd wedi'i gwympo, yn unol â'r fanyleb
6. asesu ansawdd y pren sydd wedi'i gwympo a gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau
7. cynnal diogeledd y pren sydd wedi'i gwympo ac sy'n cael ei gadw ar y safle
8. cwblhau a storio cofnodion rheoli stoc yn unol â gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi a chael at wybodaeth sy'n berthnasol i'r gwaith gofynnol
2. sut i nodi peryglon ac asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gwaith i'w wneud
3. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r Systemau Gweithio Diogel perthnasol
4. y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer, safonau a chanllawiau'r diwydiant, polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau sefydliadol, moeseg busnes a moeseg proffesiynol presennol sy'n berthnasol i'ch maes gwaith ac y mae'n rhaid i chi gadw atynt
5. dewis, defnyddio a gofalu am gyfarpar diogelu personol (PPE)
6. sut i ddefnyddio prennau mesur boncyffion a thablau cyfaint metrig
7. dosbarthiad boncyffion pren meddal a'u cyflwyniad
8. sut i ddefnyddio tablau troedfeddi Hoppus wrth asesu a rhagweld cyfeintiau pren wedi'i gwympo ar gyfer coed llydanddail mawr
9. ffynonellau gwybodaeth eraill, fel cynaeafwyr, y gallant gael eu defnyddio i asesu cyfaint y pren sydd wedi'i gwympo
10. sut i fesur, cofnodi a chyfrifo cyfaint y pren sydd wedi'i gwympo at ddibenion cyfrif stoc, er mwyn canfod y math o werthiant a'r taliad yn gysylltiedig â'r gwaith a wnaed
11. sut i ddefnyddio pecynnau cyfrifo cyfaint ar gyfrifiadur
12. y perthnasoedd rhwng tunelli metrig dros-risgl (O/B) ac is-risgl (U/B) ar sail rhywogaeth, maint ac oedran y pren, adeg y flwyddyn ac am ba hyd y mae'r pren wedi'i gwympo
13. sut i nodi rhywogaethau coed o bren wedi'i gwympo
14. nodweddion gwahanol rywogaethau pren a sut mae hyn yn effeithio ar eu hansawdd a'u gwerth posibl
15. graddau gwahanol pren a'u gwerth cymharol
16. y wybodaeth y gellir ei defnyddio i fonitro ansawdd cynhyrchion
17. gwahanol ffyrdd o werthu pren, gan gynnwys cyfaint a phwysau
18. pwysigrwydd cynnal diogeledd y pren sydd wedi'i gwympo ar y safle a sut gellir gwneud hyn
19. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cwblhau a storio dogfennaeth

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**Sut i fesur:**

- boncyffion a pholion unigol
- coed unigol
- pren crwn bach

**Cyfaint y pren sydd wedi'i gwympo:**

- diamedr brig is-risgl (U/B) a diamedr canol dros-risgl (O/B) x hyd (ar gyfer boncyffion a pholion)
- diamedr brig cyfartalog x hyd (ar gyfer amcangyfrifon pren crwn bach)
- hyd cyfartalog x uchder x lled x c/f ar gyfer gofod aer (ar gyfer cyfaint wedi'i bentyrru)
- mesur cyfaint a'i drosi'n fetrau ciwbig U/B
- metrau ciwbig O/B – ffactor trawsnewid tunelli metrig/m3

## Geirfa

Gallai **gwybodaeth** sy'n ofynnol i gyflawni gweithgareddau gwaith gynnwys:

- lluniadau
- cynlluniau
- amserlenni
- manylebau
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs)
- cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr
- gofynion y cwsmer
- gofynion sicrhau ansawdd
- safonau'r diwydiant (e.e. Safonau Prydeinig)
- cyfarwyddiadau ar lafar neu yn ysgrifenedig
- canllawiau'r diwydiant (e.e. Llawlyfr Mesur y Comisiwn Coedwigaeth)

Mae **gweithdrefnau sefydliadol** yn cyfeirio at weithdrefnau sydd wedi'u gosod gan y sefydliad sy'n eich cyflogi neu'r sefydliad rydych chi'n gwneud y gwaith ar ei ran (y cleient neu'r cwsmer)

Mesur ac asesu cyfaint ac ansawdd pren sydd wedi'i gwympo

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Ebr 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Ebr 2029 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANTw67 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Coedyddiaeth a choedwigaeth, Prysgoedio |
| **Cyfres/Set** | Gwaith coed |
| **Geiriau Allweddol** | mesur; asesu; cyfaint; ansawdd; pren |